# FFORWM MYNEDIAD LLEOL BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd, 2023.

Yn Bresennol: I.A.N. Perry (Cadeirydd); W.A. Hennessy (Is-Gadeirydd); S. Bain, F. Coleman, R. Exley, I. Fraser, K. Lucas, S. McMillan, G. Thomas, P. Walsh a Cynghorydd E. Williams.

Hefyd yn bresennol: G. Davies (Ysgrifenydd), D. Hunt ac S. Thomas (Cyngor Bro Morganwg) ac N. Davies (Cyfoeth Naturiol Cymru).

(a) Ymddiheuriadau am Absenoldeb –

Derbyniwyd y rhain gan I.R. Buckley, S. Campbell, J. Cole a S. Gaffney.

(b) Cofnodion –

CYTUNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebril, 2023 fel cofnod cywir.

(c) Cyflwyniad gan Dyst Allanol - Mynediad Lleiaf Rhwystrol -

Croesawodd y Cadeirydd Mr. C. Grimes sef Rheolwr Gyfarwyddwr Experience Community a wahoddwyd i roi cyflwyniad byr ar y Mynediad Lleiaf Cyfyngol i Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

Cyfeiriodd Mr. Grimes, yn ei gyflwyniad, at y canlynol:

- Nodwyd bod rhywfaint o'r wybodaeth i bobl anabl i gynorthwyo gyda mynediad i gefn gwlad yn eithaf cyfarwyddol, yn weddol fyr ac nad oedd yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r heriau y gallent eu hwynebu.
- O ganlyniad, roedd Experience Community, yn ôl yn 2019, wedi datblygu system sgorio llwybrau o 1 i 5 - 5 oedd yr arwyneb lle gallai pobl anabl ddod ar draws rhwystrau a allai fod yn anhramwyadwy, a lle gallai fod angen cymorth gan bobl nad ydynt yn anabl.
- O ran sgorio'r llwybrau, roedd hyn yn cynnwys lluniau o unrhyw rwystrau posibl y gallai pobl anabl eu hwynebu ac a oedd giât allwedd ‘radar’ wedi'i gosod gan nad oedd allwedd ar gael bob amser ac felly byddai angen i berson anabl egluro cyn dechrau'r llwybr.
- Hefyd cafodd gwybodaeth ei chasglu am led lleiaf llwybrau gan fod hyn yn arbennig o bwysig i bobl mewn cadeiriau olwyn.
- Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal archwiliad i dynnu sylw at y rhan o Lwybr Arfordir Cymru y gellid ei gwella, ac roedd hyn wedi arwain at ymgyrch hyrwyddo i bobl anabl a oedd yn cynnwys chwe chwestiwn sylfaenol a fyddai'n helpu person i asesu a oedd llwybr yn addas.

- Roedd graddiannau dyrchafedig ac i lawr wedi'u cofnodi ac roedd hyn yn cynorthwyo pobl a oedd angen offer symudedd.
- Yn olaf, roedd y sefydliad Experience Community wedi dyfeisio toiled cyhoeddus hygyrch yr oedd llawer o enghreifftiau ohono ledled y wlad, sef un o'r argymhellion a wnaed i'r Cyngor symud ymlaen.

Gofynnodd aelod o'r Fforwm i Mr Grimes a oedd unrhyw ardaloedd yn y Fro y gellid eu gwella i gynorthwyo hygyrchedd, yn enwedig ar lwybrau troed. Wrth ymateb, dywedodd Mr Grimes ei fod yn siŵr bod ardaloedd o'r fath, ac roedd yn gweithio'n agos gyda Thîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor a Cyfoeth Naturiol Cymru i nodi rhannau o'r rhwydwaith. Roedd prosiect peilot wedi'i ymestyn a fyddai'n edrych ar ddeg rhan arall ledled Cymru ac a fyddai'n cynnig argymhellion a chyngor ar sut i wella hygyrchedd a byddai'r gwaith hwnnw'n cael ei rannu gyda Chyngor Bro Morgannwg.

Cytunodd Mr Grimes i rannu dolen i'r dudalen we ynghylch 'toiledau Changing Places' ar gyfer pobl ag anabledd a symudedd cyfyngedig.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Grimes am ei gyflwyniad, a nodwyd y byddai mwy o wybodaeth yn cael ei rhoi i'r Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus er mwyn datblygu a gwella mynediad i bobl ag anabledd.

(d) Adroddiad Blynyddol Drafft Fforwm Mynediad Lleol 2022/23 -

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Adroddiad Blynyddol drafft 2022/23 i'w ystyried.

CYTUNWYD – BOD yr Adroddiad Blynyddol drafft yn cael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi.

(e) Adroddiad Cynnal a Chadw (Diweddariad Llafar) -

Rhoddodd D. Hunt y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith cynnal a chadw a wnaed gan y Tîm Hawliau Tramwy.

Cyfeiriodd at y Grant Gwella Mynediad (GGM), a oedd yn gyllid gan Lywodraeth Cymru i bob awdurdod lleol yng Nghymru a ddefnyddiwyd i wella mynediad i'r rhwydwaith Hawliau Tramwy. Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, defnyddiwyd y GGM i osod dros 100 o gyfeirbwyntiau newydd, gosod 2 bont droed newydd a disodli dodrefn hen a diffygiol.

Nodwyd bod 20km o lystyfiant wedi'i glirio mewn perthynas â Llwybr Arfordir Cymru drwy ddau sesiwn dorri ar wahân er mwyn gwella mynediad i lwybrau Yn ogystal, roedd Llwybr yr Arfordir o amgylch Sain Dunwyd wedi'i wthio'n ôl ac roedd ffensys newydd wedi'u codi ym Mharc Gwledig Porthceri.

O ran gwaith cynnal a chadw Hawliau Tramwy, roedd cyllideb flynyddol o £50k. Roedd hynny wedi cael ei defnyddio ar gyfer gorchmynion cyfreithiol ac ar gyfer

gwaith arolygu a wnaed gan wirfoddolwyr. Roedd cyfanswm o 35km o lwybrau wedi'u clirio o lystyfiant ac
roedd nifer o gamfeydd a giatiau mochyn wedi'u hatgyweirio neu'u disodli.

Nododd y Fforwm fod gan dirfeddianwyr gyfrifoldeb i sicrhau bod llwybrau rhwydwaith yn hygyrch i bawb yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb, ond roedd y Tîm Hawliau Tramwy yn hapus i gynorthwyo gyda materion neu ymchwilio iddynt ymhellach.

CYTUNWYD - BOD y diweddariad i'r adroddiad cynnal a chadw yn cael ei nodi.

(f) Diweddariadau Gorchmynion Cyfreithiol a Gorchmynion Diwygio Tystiolaethol -

Rhoddodd S. Thomas ddiweddariad ar y Gorchmynion Cyfreithiol a'r Gorchmynion Addasu Tystiolaethol a oedd wrthi'n cael eu cwblhau ar yr adeg honno.

Cyfeiriodd S. Thomas at Lwybr Rhif 8 ym mhlwyf Sain Dunwyd yr oedd yr ymgynghoriad cyn Gorchymyn ar y gweill ar ei gyfer. Roedd angen gwthio'r llwybr yn ôl oherwydd erydu arfordirol a daethpwyd i gytundeb gyda Choleg yr Iwerydd ar gyfer coridor 3m o led gyda newid i linell y ffens gan ei symud o ymyl y clogwyn. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau felly y gobaith oedd y byddai'r Gorchymyn Cyfreithiol yn cael ei gwblhau erbyn canol mis Ionawr.

Cyfeiriodd S. Thomas hefyd at Lwybr Rhif 9 a 9A o fewn plwyf y Barri dan yr enw lleol Maes Hamdden Merthyr Dyfan. Unwaith eto, roedd ymgynghoriad cyn Gorchymyn ar y gweill lle derbyniwyd sawl gwrthwynebiad felly byddai'r rheiny'n cael eu coladu, a byddai'r Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cysylltu â'r bobl a oedd â diddordeb er mwyn datrys rhai o'r pryderon a'r materion. Os na, yna roedd yn debygol y byddai'r gwyriad yn cael ei ystyried gan Is-bwyllgor Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor.

PENDERFYNWYD - BOD yr adroddiad yn cael ei nodi.

(g) Diweddariad ar Ddangosyddion Perfformiad -

Rhoddodd D. Hunt ddiweddariad mewn perthynas â'r Dangosyddion Perfformiad (DP) a ddefnyddir gan y Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

Nodwyd mai dim ond ers rhai blynyddoedd y casglwyd data ar gyfer nifer o ddangosyddion ac roedd Llywodraeth Cymru wedi newid y fframwaith adrodd perfformiad. Felly, nid oedd cyfartaledd Cymru ar gael ac felly o 2013 nid oedd data cymharol. Nodwyd, o ran llwybrau a oedd gryn bellter o'r ffordd, mai 63% oedd y ffigwr a gyflwynwyd gan Fro Morgannwg ar gyfer 2022/23. O ran llwybrau a oedd yn hawdd eu defnyddio, 53% oedd y ganran yn 2022/23. Nodwyd bod y perfformiad ar gyfer y ddau DP wedi amrywio dros y degawdau diwethaf.

CYTUNWYD – BOD yr adroddiad diweddaru'n cael ei nodi.

(h) Trosolwg Cyllid Grant (Diweddariad Llafar) -

Rhoddodd D. Hunt drosolwg o'r grantiau a oedd ar gael ar gyfer datblygu a chynnal a chadw'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

Roedd hyn yn cynnwys y Prosiect Gwella Mynediad i'r Arfordir (RhGMA), y dyrannwyd swm o tua £40k i'r Cyngor ar ei gyfer gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a oedd wedi'i dderbyn ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Cyfeiriodd Mr Hunt at waith cynnal a chadw a oedd yn cael ei wneud i wthio llwybr o amgylch Coleg yr Iwerydd yn ôl a gosod camfeydd, gatiau mochyn, dodrefn newydd gan gynnwys pontydd troed newydd.

Yn ogystal, roedd y GGM a oedd yn ffrwd cyllido tair blynedd ac roedd y Cyngor yn yr ail flwyddyn ar hyn o bryd.
Roedd arian wedi cael ei ddefnyddio i ddylunio pontydd troed newydd i'w gosod y flwyddyn nesaf yn dilyn cytundeb gan CNC. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gyfreithloni rhannau newydd o'r rhwydwaith yn Sain Dunwyd yn dilyn gwthio'r llwybr yn ôl.

CYTUNWYD – BOD yr adroddiad diweddaru'n cael ei nodi.

(i) Gwerthusiad ac Adborth ar Weithdy Blaenorol y Fforwm Mynediad Lleol (Diweddariad Llafar) -

Rhoddodd D. Hunt ddiweddariad llafar ar y Gweithdy Hygyrchedd Rhwydwaith a gynhaliwyd yn ystod y cyfarfod blaenorol ar 26 Ebrill 2023. Ar gyfer hyn, rhannwyd y Fforwm yn dri gweithgor, y cyntaf yn edrych ar safbwynt defnyddiwr llwybr, yr ail grŵp yn edrych ar safbwynt perchennog tir a'r trydydd yn edrych ar safbwynt Swyddogion Hawliau Tramwy a Chyngor Bro Morgannwg.

O ran safbwynt defnyddwyr llwybrau troed, roedd yr adborth wedi nodi pwysigrwydd sicrhau bod rhwystrau'n cael eu clirio ac roedd datblygu ap i arddangos llwybrau yn glir wedi'i ystyried yn rhywbeth y byddai'r Tîm Hawliau Tramwy yn ymchwilio ymhellach iddo.

O ran safbwynt perchenogion tir, roedd cydnabyddiaeth i ystyried mathau a maint y dodrefn i'w gosod a'r angen i sicrhau bod llwybrau'n ddiogel. Roedd yr angen i gynnal nodweddion bioamrywiaeth a threftadaeth yn bwysig yn ogystal â mannau mynediad da a chyfleusterau parcio ceir.

O ran safbwynt swyddogion a Chyngor Bro Morgannwg, roedd hyn yn cynnwys meysydd fel cyllid a grantiau, mynediad i'r anabl, cydweithio ag Awdurdodau eraill a darparu ffyrdd pasio diogel i'r holl ddefnyddwyr.

Roedd yr adborth yn cael ei asesu gan y Tîm Hawliau Tramwy.

CYTUNWYD – BOD yr adroddiad diweddaru'n cael ei nodi.